



Taflen Weithgaredd  
**1**

# BWYSTFILOD BACH RHYFEDDOL

(a ble i ddod o hyd iddyn nhw)



Dewch am dro i ddarganfod trychfilod!

Mae 'na filoedd o greaduriaid o'n cwmpas ym myd natur... ond mae'n rhaid ichi chwilio'n FANWL iawn i ddod o hyd iddyn nhw.

## BYDD ANGEN...

- Jar jam bach a chaead sydd â thyllau ynddo (er mwyn edrych ar y trychfilod).
- Hen lwy fetel neu drywel bach.
- Pen/papur neu ffôn i gofnodi'ch canfyddiadau.

Mae'n well ichi wneud hyn ar ddiwrnod llaith, felly gwisgwch ddillad addas!



## PRYF GENWAIR

**Ble i chwilio...** palwch i mewn i bridd llaith ac edrychwch ymhlith y planhigion meirw.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...** eu bod yn ailgylchu planhigion meirw ac mae eu twneli'n helpu aer a dŵr i dreiddio i mewn i'r pridd.

## PRYF CLUSTIOG

**Ble i chwilio...** mewn mannau tywyll a chysgodol, o dan gerrig, potiau a rhisgl coed sydd wedi dod yn rhydd.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...** eu bod yn bwyta pryfaid gleision a phlâu eraill i helpu i ddiogelu planhigion rhag ymosodiadau.



## CHWILEN Y LLAWR

**Ble i chwilio...** dan orchudd dail neu gallwch balu i lawr drwy uwchbridd i ddatgelu tyllau bas.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...** eu bod yn helpu i beillio planhigion a chadw plâu megis gwllithod a malwod dan reolaeth.



## GWLITHEN

**Ble i chwilio...** dan botiau, cynwysyddion, cerrig a mewn tyfiant trwchus.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...** eu bod yn yn rhoi bwyd i amffibiaid, trychfilod, ymlusgiaid a llawer o famaliaid.



## MALWODEN

**Ble i chwilio...** dan frigau coed sy'n pydru, byrddau pren neu ddodrefn gardd.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...** eu bod yn bwyta llystyfiant sy'n pydru, sbwriel dail, ffyngau ac weithiau pridd.



## GWRACH Y LLUDW

**Ble i chwilio...** mewn mannau llaith, dan foncyffion a gorchudd dail.

**Maen nhw'n rhyfeddol gan mai...** cramenogion ydyn nhw ac maen nhw'n ailgylchu maethynnau drwy fwydo ar bren sy'n pydru.



Ar ôl ichi orffen edrych arnyn nhw, cofiwch eu rhoi yn ôl gan eu bod yn gwneud gwaith pwysig!

**Mwynhewch yr helfa!**

Parc Rhanbarthol  
y Cymoedd



Valleys  
Regional Park



Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
European Social Fund



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government